



Papur Gwybodaeth

Papur gwybodaeth ar y cap Lwfans Tai Lleol (LHA) ar gyfer Tai â Chymorth.
Mae'r manylion allweddol yn cynnwys:

Caiff Tai â Chymorth (yn ei ddiffiniad ehangaf, yn cynnwys llety gwarchod¹) ei eithrio o'r cap LHA hyd fis Mawrth 2019.

Ni fydd Tai â Chymorth yn derbyn toriad mewn cyllideb ac o fis Ebrill 2019 caiff costau tai eu talu drwy'r system budd-daliadau hyd at y lefel LHA berthnasol gyda swm atodol yn cael ei dalu drwy gronfa a ddatganolwyd. Penderfyniad i Lywodraeth Cymru fydd sut y caiff Tai â Chymorth ei ddiffinio yn y dyfodol.

Ni fydd Cyfradd Rhannu Llety (SAR) wrth gyfrif y gyfradd LHA ar gyfer tenantiaid yn y system newydd. Y gyfradd LHA un ystafell wely fydd y gyfradd isaf a ddefnyddir ar gyfer pobl dan 35 oed sy'n byw mewn tai â chymorth.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu fod angen sicrhau system wahanol ar gyfer gwasanaethau trosiannol tymor byr iawn.

Yn Natganiad yr Hydref² cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys y bydd cap ar y gyfradd berthnasol o Lwfans Tai Lleol (LHA) ar fudd-dal tai a chostau tai o fewn Credyd Cynhwysol ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol. Bydd y newid yn weithredol i unrhyw denantiaeth newydd neu denantiaeth a adnewyddwyd o fis Ebrill 2016, ond ni fydd tenantiaid yn gweld gostyngiad yn eu budd-dal tai hyd Ebrill 2018. Derbyniodd Tai â Chymorth eithriad estynedig am un flwyddyn; mae'r papur gwybodaeth hwn yn rhoi diweddariad ar y polisi ar gyfer tai â chymorth.

Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd Damian Green AS, Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau, y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gohirio gweithredu'r polisi ar gyfer tai â chymorth tan 2019/20³. Ar y pwynt hwn, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyflwyno model cyllido newydd fydd yn sicrhau fod y sector yn

¹ <http://www.housing.org.uk/latest-updates/clarification-from-clg-on-supported-housing-rent-reduction/>

² http://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/CSR_Autumn_Statement_In-Depth_Briefing2.pdf

³ <http://chcymru.org.uk/en/view-news/supported-housing-exempt-from-lha-cap-but-uncertainty-remains>



parhau i gael ei ariannu ar y lefelau presennol, gan roi ystyriaeth i effaith polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar renti sector cymdeithasol. Caiff costau uwchben lefel cyfradd LHA eu datganoli yng Nghymru a mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu ar y ffordd orau i ddyrannu'r cyllid.

Bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o 2019/20 ymlaen yw arianu rhent craidd a thaliadau gwasanaeth drwy Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol hyd at lefel y gyfradd LHA berthnasol. Bydd hyn yn weithredol ar gyfer **pawb sy'n byw mewn tai â chymorth** o'r dyddiad hwn. Cadarnhawyd hefyd na fydd y Gyfradd Rhannu Llety yn weithredol i bobl sy'n byw yn y sector tai â chymorth ac y bydd y gyfradd un ystafell wely y budd-dal isaf posibl a gaiff ei dalu. Ni wnaed unrhyw ymrwymiad i gyllido llety symud-ymlaen.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n bwriadu neilltuo'r gronfa atodol yn Lloegr i sicrhau ei bod yn parhau i gefnogi pobl agored i niwed, fodd bynnag nid oes ganddynt y pwerau i sicrhau fod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn yr un modd. Caiff y cyllid atodol ei osod ar sail amcanestyniadau cyfredol o angen y dyfodol a bydd trafodaethau yn dilyn rhwng Trysorlys Ei Mawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llyworaeth Cymru ar sut y bydd y gronfa honno yn parhau i ateb y galw cyfredol a galw'r dyfodol. Bydd angen i adolygiad presennol Llywodraeth Cymru ar bolisi rent ystyried effaith y newid hwn a bydd CHC hefyd yn sicrhau bod swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried hyn.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i greu dull cyllido newydd ar gyfer llety tymor byr iawn, yn cynnwys hostelau a llochesi. Nid oes unrhyw fanylion pellach i nodi diffiniad y darparwyr hyn neu os cânt eu talu drwy'r un dull cyllido.

Bydd proses ymgynghori yn dilyn yn fuan lle bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gofyn am sylwadau ar: ansawdd, canlyniadau unigol, y model cyllido newydd a diwygio rheoleiddiol sy'n effeithlon ac yn gymesur ar gyfer tai â chymorth. Yn Lloegr dim ond y gostyngiad rhent 1%⁴ fydd yn weithredol i dai â chymorth yn awr, gan fod yr Adran Gwaith a Phensiynau'n credu fod hyn yn rhan hanfodol o sicrhau arbedion effeithlonrwydd, tra'n darparu llety ansawdd uchel ac effeithlon o ran cost.

Yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf bu CHC a'i aelodau yn gweithio'n galed i roi tystiolaeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru am effaith y polisi LHA: mae'r cyhoeddiad hwn yn gydnabyddiaeth eu bod wedi gwrando ar y sector ac yn cydnabod rôl hanfodol tai â chymorth mewn trawsnewid bywydau.

⁴ https://www.gov.uk/guidance/welfare-reform-and-work-act-2016-social-rent-reduction?dm_i=3R33,36VG,11XRDB,9FB2,1



Bu CHC yn gweithio'n agos gyda gweinidogion a swyddogion y ddwy Lywodraeth dros yr ychydig fisoedd diwethaf i ddylanwadu ar y cynnig hwn ac i ostwng y risgiau a achosir gan y polisi gwreiddiol.

Mae'r gwaith wedi cynnwys:

- **Hysbysu ein haelodau am y newidiadau allweddol mewn polisi a'u heffaith:** Mae hyn wedi cynnwys papurau gwybodaeth ar bolisi LHA⁵ a digwyddiad strategol a fynychwyd gan dros 100 o gynrychiolwyr.
- **Ymchwil fanwl i ddeall effaith y newidiadau:** Roedd hyn yn cynnwys ymchwil ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar effaith y gyfradd rhannu ystafell ar gyfer pobl dan 35 oed⁶.
- **Cyd-ddatblygu polisi amgen gydag aelodau a phartneriaid:** Bu gweithgor aelodau CHC yn gweithio wrth ochr ffederasiynau tai eraill y Deyrnas Unedig, Cymorth Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu datrysiadau polisi.
- **Lobio ac ymgyrchu ar lefel wleidyddol:** Arweiniodd CHC drafodaethau gyda Gweinidogion y Deyrnas Unedig a Gweinidogion Cymru i drafod yr effeithiau penodol ar gyfer effeithiau penodol ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru.

Ar ran y sector, mae CHC yn argymhell y newidiadau polisi dilynol i'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 30 Mehefin 2016:

- Ffocws ar sicrwydd hirdymor ar gyfer landlordiaid a darparwyr, gan eu galluogi i barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau tai â chymorth newydd a phresennol.
- Dileu bygythiad cap Lwfans Tai Lleol (LHA) i roi hyder i landlordiaid a darparwyr i barhau i ddatblygu cynlluniau tai â chymorth newydd a presennol arloesol tra bod y system cyllid yn cael ei diwygio.
- Y rhoddir amser digonol i drin y trosiant i unrhyw system newydd ac yn y cyfamser bod y trefniadau ariannu presennol - heb y cap LHA - yn parhau nes bydd y trosiant wedi ei gwblhau.
- Gweithio'n agos gyda'r sector tai â chymorth yng Nghymru wrth ddatblygu model ariannu newydd. Mae adrannau ar draws y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn cydweithio a chefnogi'r model cyllid

⁵ <http://chcymru.org.uk/en/publications/in-depth-briefing-papers/>

⁶ <http://chcymru.org.uk/en/view-news/chc-and-wlga-viable-housing-model-research>



newydd er mwyn rhoi dyfodol sicr i dai â chymorth, gan adlewyrchu'r buddion y mae'n eu rhoi ar dras blaenoriaethau polisi priodol y ddwy lywodraeth

Mae swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi gwerthfawrogi'r ddirnadaeth a'r wybodaeth y gall CHC a'r aelodau ei roi i'r trafodaethau ar ddatganoli dull ariannu newydd. Byddwn yn adeiladu ar hyn a'n perthynas gref gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau fod anghenion aelodau yn cael lle blaenllaw mewn penderfyniadau ar ddarpariaeth.

Yn flaenorol roedd y polisi yn eithrio tai â chymorth am gyfnod o 12 mis er na ellir gweld yr eithriad tair blynedd newydd fel sicrwydd hirdymor. Ynghyd ag ymrwymiad i ddiwallu anghenion yn y dyfodol, mae'r polisi newydd yn gadael y sector mewn gwell sefyllfa. Er y bydd cyfraddau LHA yn dal i gael eu gweithredu, ni fydd cap ar y lefel yma ar hawl bellach a bydd CHC yn sicrhau fod trafodaethau priodol yn parhau drwy'r cyfnod trosiant.

Mae'r enghreifftiau dilynol yn dangos sut y bydd i'r rhai sy'n gweithio ac yn byw mewn llety â chymorth addasu i'r cyllid newydd:

Enghraifft o uned gofal ychwanegol:

	Model cyllid cyfredol yn parhau hyd fis Mawrth 2019	Polisi Uchafswm LHA - dim bellach yn cael ei ddefnyddio	Dull cyllid newydd Ebrill 2019
Rhent	£114.44	£114.44	£114.44*
Tâl gwasanaeth cymwys am fudd-dal tai	£46.79	£46.79	£46.79
Ffioedd heb fod yn gymwys am fudd-dal tai:			
Dŵr	£5.43	£5.43	£5.43
Monitro larwm	£9.75	£9.75	£9.75
Gwresogi	£7.22	£7.22	£7.22
Trydan	£6.43	£6.43	£6.43
Prydau Bwyd	£56.98	£56.98	£56.98
Cyfanswm rhent a thâl gwasanaeth	£247.04	£247.04	£247.04
Cyfanswm Budd-dal Tai	£161.23	£73.64 - LHA	£73.64* - LHA
Cronfa Cefnogi Pobl	£9.75	£9.75	£9.75
Cronfa ddatganoledig newydd o 2019	-	-	£87.59
Taliad Tenant	£85.81	£173.40	£85.81



Enghraifft Rhannu Llety:

	Model cyllid cyfredol yn parhau hyd fis Mawrth 201	Polisi Uchafswm LHA - dim bellach yn cael ei ddefnyddio	Dull cyllid newydd Ebrill 2019
Rhent	£68.43	£68.43	£68.43*
Tâl gwasanaeth cymwys am fudd-dal tai	£26.80	£26.80	£26.80
Ffioedd heb fod yn gymwys am fudd-dal tai:			
Dŵr	£3.08	£3.08	£3.08
Gwresogi	£5.92	£5.92	£5.92
Cyfanswm rhent a thâl gwasanaeth	£104.23	£104.23	£104.23
Cyfanswm Budd-dal Tai	£95.23	£85.85 - LHA	£85.85* - LHA
Cronfa Cefnogi Pobl	-	-	-
Cronfa ddatganoledig newydd o 2019	-	-	£9.38
Taliad Tenant	£9.00	£18.38	£9.00

*Mae dwy ffactor sylweddol sydd angen eu hystyried yn y cyfrifiad hwn, gyda chynnydd rhent y cyntaf ohonynt. Rhwng nawr a datganoli'r gronfa, bydd unrhyw gynnydd rhent yng Nghymru yn rhedeg wrth ochr gostyngiad yn Lloegr.

Ymhellach, mae rhewi cyfraddau LHA yn golygu ei bod yn debygol y bydd cyfraddau'n gostwng mewn llawer rhan o Gymru.

Bydd angen asesu hyn wrth gyfrif unrhyw gronfa derfynol. Cynhelir cyfarfod nesaf cenedlaethol y Rhwydwaith Tai â Chymorth a Darparwyr yn Ninbych ar 22 Medi 2016 - manylion yma:

<http://chcymru.org.uk/en/events/networks/network-information/national-supported-housing-and-provider-network/>

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Paul Langley, paul-langley@chcymru.org.uk neu ffonio 02920674812